CYFARFOD	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
DYDDIAD	**10 Mawrth, 2015**
PWNC	**Ymgysylltu gydag aelodau**
PWRPAS	**Ceisio arweiniad pellach ar argymhellion penodol**
AWDUR	**Geraint George** **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

CEFNDIR

1. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cofio i mi adrodd o'r blaen ar gomisiwn gan y pwyllgor hwn a'r Panel Cyflawni Gofal Cwsmer i wneud gwaith ar ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag aelodau. Roedd hyn yn sgil ymgynghori gydag aelodau (mewn gweithdai a thrwy holiadur) am y trefniadau a oedd yn amlygu nifer o negeseuon allweddol:-

    - Bod cydweithio da rhwng swyddogion ac aelodau ar y cyfan ond ei fod yn anghyson
    - Methiant i ddefnyddio gwybodaeth leol cynghorwyr yn effeithiol
    - Gwir angen gwella a gwneud defnydd o aelodau yn y ddeialog anodd gyda'r cyhoedd.

2. Yn dilyn y trafodaethau cychwynnol hynny, sefydlwyd grwp tasg ar y cyd o swyddogion (yn gyfarwyddwyr, penaethiaid ac ymarferwyr yn y maes) ac aelodau etholedig (yn cynnwys aelodau cabinet ac aelodau rheng flaen).

3. Cyfarfu'r Grwp Tasg ar ddau achlysur. Yn y cyfarfod cyntaf, dadansoddwyd yr elfennau positif a heriol o ran y berthynas rhwng aelodau a swyddogion ac adnabuwyd 11 maes lle y gellir cynnig gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n deg nodi bod cryn amrywiaeth rhyngddynt o ran maint a chymlethdod a bod amryw o'r meysydd hynny'n gor-gyffwrdd.

4. Dylwn nodi, wrth basio, bod y drafodaeth yn y Grwp Tasg wedi bod yn un buddiol a gonest iawn gydag aelodau a swyddogion yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yn onest ac agored ar faterion yn ymwneud er engraifft â materion fel ymddiriedaeth.

5. Yn yr ail gyfarfod, cytunwyd bod gormod o ran y meysydd i roi sylw ystyrlon iddynt a am y tro ac y dylid canolbwyntio ar ddau brif fater, y naill yn fawr a strategol a'r llall yn llai a mwy gweithredol ei natur.

CYNIGION PENODOL

6. Newidiadau Mawr / Her Gwynedd – Dyma'r prif faes y mae angen canolbwyntio arno yn y dyfodol agos. Yr egwyddor sylfaenol yma yw y dylid ceisio dod ag aelodau rheng flaen i fewn i drafodaethau am newidiadau mawr ac arwyddocaol mor fuan â phosib. Nodwyd bod risg yn hynny o beth gan bod peryg bod aelodau yn medru mynd at y Wasg neu'r Cyfryngau Cymdeithasol cyn bod materion yn aeddfed

   Camau Gweithredu Penodol:-
   a) Ymrwymiad i ddefnyddio craffu ymlaen llaw yn fwy aml a bod deialog cyson rhwng Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Craffu ynglyn â materion y gellid ymdrîn â hwy yn y ffordd hynny
   b) Ymrwymiad gan Aelodau Cabinet a swyddogion i gynnwys yr holl aelodau lleol allai gael eu heffeithio mewn trafodaethau am newidiadau arwyddocaol mewn rhai meysydd DS Soniwyd am ymrwymo hyn ar gyfer 10 uchaf gan ymddiried y gweddill i'r trefniadau gweithredol isod
   c) Ymrwymiad gan aelodau unigol i barchu ymddiriedaeth a chyfrinachedd nes y mae cynigion newid yn aeddfed i'w cyhoeddi ac ymgynghori amdanynt

7. Trefniadau Cyswllt Gweithredol – Diffygion yn y maes hwn sydd yn achosi'r rhwystredigaeth fwyaf i aelodau gyda phethau yn digwydd o fewn eu hetholaethau heb iddynt wybod amdanynt nes bod hanes yn ymddangos yn y Wasg neu bod un o'r trigolion yn gofyn i'r aelod beth sydd wedi digwydd. Mae nifer hefyd wedi mynegi rhwystredigaeth nad ydynt yn gwybod efo pwy i gysylltu ar faterion gwahanol.

   Camau Gweithredu Penodol:-
   a) Annog aelodau i wneud defnydd, yn y lle cyntaf, o Galw Gwynedd oherwydd effeithlonrwydd trefn tracio Galw Gwynedd ar gyfer ymholiadau
   b) Uned Gyfathrebu i ddiweddaru rhestr o bwyntiau cyswllt allweddol ar y wefan gan gyhoeddi (trwy Rhaeadr) le mae hynny ar gael
   c) Pob adran i atgoffa swyddogion i gynnwys aelodau lleol wrth rannu gwybodaeth am faterion lleol a gweithredol sydd ar waith o fewn eu wardiau

8. Gwahoddir y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried a chymeradwyo'r camau gweithredu uchod.